# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PANEL CANIATÂD ARBENNIG (O'R PWYLLGOR SAFONAU) | | DISPENSATION PANEL (OF THE STANDARDS COMMITTEE) |
| DYDD MERCHER, 29 GORFFENNAF 2020 am 2.00 o'r gloch | | WEDNESDAY, 29 JULY 2020 at 2.00 pm |
| CYFARFOD RHITHIOL | | VIRTUAL MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs Shirley Cooke 01248 752514 | Committee Officer |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Mr Thomas Rhys Davies
Mr John Robert Jones (Cadeirydd/Chair)
Mrs Sharon Warnes

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG** (Tudalennau 1 - 34)

Ystyried ceisiadau am Ganiatâd Arbennig.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR SAFONAU (PANEL CANIATÂD ARBENNIG)** |
| **DYDDIAD:** | **29 GORFFENNAF 2020** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **YSTYRIED CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **PENDERFYNU A DDYLID RHOI CANIATÂD ARBENNIG AI PEIDIO I'R HOLL GYNGHORWYR SIR A'R TELERAU OS PENDERFYNIR GWNEUD HYNNY** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk / 01248 752586** |

## 1. DOGFENNAU ATODOL I'R ADRODDIAD

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn |
| Atodiad 2 | Nodyn Briffio ar Ganiatâd Arbennig a ddarparwyd gan y Pwyllgor Safonau ar gyfer aelodau etholedig Cyngor Sir Ynys Môn ynghyd â Ffurflenni Cais a Phenderfyniad |
| Atodiad 3 | Ceisiadau gan y Cynghorydd Lewis Davies, y Cynghorydd Richard A Dew, y Cynghorydd John Griffith, y Cynghorydd Richard Griffiths, y Cynghorydd Glyn Haynes, y Cynghorydd Kenneth P Hughes ,y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes MBE,y Cynghorydd Vaughan Hughes, y Cynghorydd Llinos Medi Huws, y Cynghorydd Aled Morris Jones, y Cynghorydd Carwyn Jones, y Cynghorydd Eric Wyn Jones, y Cynghorydd Richard Owain Jones, y Cynghorydd Gwilym O Jones, y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones, y Cynghorydd R Meirion Jones, y Cynghorydd Alun Mummery, y Cynghorydd Bryan Owen, y Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS, y Cynghorydd Dylan Rees, y Cynghorydd Alun Roberts, y Cynghorydd Dafydd Roberts, y Cynghorydd J Arwel Roberts, y Cynghorydd Margaret Murley Roberts, y Cynghorydd Nicola Roberts, y Cynghorydd Peter S Rogers, y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, y Cynghorydd Ieuan Williams a'r Cynghorydd Robin Wyn Williams. |
| Atodiad 4 | Nodyn Methodoleg ar gyfer Panel y Pwyllgor Safonau pan fydd yn ystyried ceisiadau am ganiatadau arbennig. |

## 2. CEFNDIR CYFREITHIOL

Yn unol hefo Côd Ymddygiad Cyngor Sir Ynys Môn (**Atodiad 1**), ni all aelodau sydd â diddordeb personol sy'n rhagfarnu gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch yr eitem honno yn y Cyngor Sir / unrhyw gyfarfod pan fyddant yn mynychu yn rhinwedd eu swydd fel aelod

o’r Cyngor. Rhestrir diddordebau personol ym mharagraff 10 y Côd. Ceir diffiniad o ddiddordeb rhagfarnol ym mharagraff 12 y Côd.

Mewn rhai amgylchiadau penodol, a chyfyngedig, gall aelod oresgyn y rhwystr sy’n cael ei greu gan y diddordeb personol sy’n rhagfarnu drwy dderbyn caniatâd arbennig gan Bwyllgor Safonau’r Cyngor Sir. Ni fedrir ond rhoi caniatâd arbennig yn yr amgylchiadau sy’n cael eu rhestru yn Adran 2 Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y’i diwygwyd gan Adran 4 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016. Mae gwybodaeth am y seiliau hyn wedi eu cynnwys yn y Nodyn Briffio yn **Atodiad 2**.

## 3. CEFNDIR FFEITHIOL

Mae Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu, os yw Aelodau yn methu â mynychu cyfarfod neu bwyllgor o'r Cyngor am gyfnod di-dor o 6 mis, eu bod yn peidio â bod yn aelodau etholedig ac y bydd is-etholiad yn cael ei sbarduno. Gellir osgoi hyn os yw'r Cyngor yn cymeradwyo'r absenoldeb cyn i'r cyfnod o 6 mis ddod i ben. Cadarnheir y ddarpariaeth gyfreithiol yn adran 4.1.23.1 o Gyfansoddiad y Cyngor.

O ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws cyfredol, mae'n rhaid i'r Cyngor flaenoriaethu ei adnoddau ac ymdrechion ei weithlu; nid yw'n bosib cynnal “busnes fel arfer”. Mae Deddf Coronafeirws 2020 a'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn lleihau'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chyfarfodydd, tra’n caniatáu i aelodau fynychu cyfarfodydd gofynnol o bell fel y bydd angen. Yng nghyd-destun y darpariaethau newydd hynny, mae'r Cyngor wedi adolygu ei amserlen Bwyllgorau arferol ac wedi llunio dogfen Strategaeth Bwyllgorau er mwyn cwrdd â'r gofynion sylfaenol absoliwt ar gyfer mynychu cyfarfodydd. Os yw amodau’n caniatáu, gellir cynnal mwy o gyfarfodydd, ond mae’r Cyngor yn canolbwyntio ar sicrhau ei fod yn darparu ei wasanaethau allweddol a datblygu gweithdrefnau yn unol â rhaglen “Profi, Olrhain, Diogelu” Llywodraeth Cymru. Bydd trefnu unrhyw gyfarfodydd ychwanegol yn dibynnu ar sut mae amgylchiadau'n datblygu dros y 12 mis nesaf, yn enwedig capasiti staff. Felly efallai na chynhelir cyfarfodydd yn aml a bydd y cyfle i aelodau “fynychu cyfarfodydd” (gan gynnwys presenoldeb rhithwir) yn gyfyngedig. Gallai hyn, ynghyd â’r ffaith y gallai aelodau eu hunain gael eu heffeithio gan y feirws, arwain at anawsterau mewn perthynas â’r “rheol chwe mis”

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 hefyd yn cynnwys cyfeiriad at y “rheol chwe mis”; Mae Rheoliad 10 yn nodi, at ddibenion cyfrifo'r chwe mis, y dylid diystyru'r cyfnod rhwng y diwrnod y daeth y Rheoliadau i rym (22 Ebrill 2020) a dyddiad cyfarfod y gallai'r aelod fod yn bresennol ynddo (gan gynnwys trwy bresenoldeb o bell). Yr hyn y mae hynny’n ei olygu yn y bôn yw bod y cloc yn stopio am y tro am y cyfnod rhwng 22 Ebrill a'r cyfarfod cyntaf y gwahoddir aelod i fod yn bresennol ynddo.

- Os yw aelod yn mynychu’r cyfarfod hwnnw, mae’r cloc yn dechrau eto ac mae gan yr aelod hwnnw gyfnod 6 mis ‘newydd’ o ddyddiad y cyfarfod.
- Os na fydd aelod yn mynychu'r cyfarfod hwnnw, mae'r cloc yn ailgydio o'r lle 'roedd wedi cyrraedd ar 21 Ebrill 2020 (cyn i'r Rheoliadau ddod i rym) - nid yw'n cychwyn o’r newydd.

Er bod y saib a ddarperir gan y Rheoliadau yn cynorthwyo trwy ymestyn y chwe mis, gallai aelodau fod mewn sefyllfa lle nad oes llawer iawn o gyfarfodydd iddynt fynychu, (oherwydd yr amserlen ddiwygiedig a gyflwynwyd gan y Strategaeth Bwyllgorau). Oherwydd ymrwymiadau eraill (cyfrifoldebau gwaith / gofalu ac ati) neu salwch, efallai na fydd aelodau yn gallu mynychu'r cyfarfod cyntaf y gwahoddwyd nhw iddo. Waeth bynnag y rheswm dros beidio

mynychu, mae'r cloc yn ailddechrau ar y dyddiad hwnnw (gan ei fod yn gyfarfod y gwahoddwyd yr aelod i'w fynychu). Efallai na fydd cyfarfod arall i'r aelod ei fynychu am rai wythnosau / misoedd; gallai hyn fynd y tu hwnt i gyfnod yr aelod hwnnw o "chwe mis".

Cyflwynir adroddiad i gyfarfod llawn y Cyngor ar 8 Medi 2020, yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo, at ddibenion Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fod yr achosion o Coronafeirws / Covid-19 yn rheswm dros i holl gynghorwyr CSYM beidio â bod yn bresennol mewn cyfarfodydd; a bod pob Cynghorydd yn cael eu gwarchod yn yr ystyr na fydd eu diffyg presenoldeb (trwy bresenoldeb o bell neu fel arall) oherwydd Coronafeirws yn arwain at eu hanghmhwyso'n awtomatig am gyfnod pellach o chwe mis.

## 4. **CAIS AM GANIATAD ARBENNIG**

Bydd yr adroddiad i'r Cyngor yn enwi pob Aelod. Bydd y cais yn effeithio'n uniongyrchol ar bob Aelod h.y. heb argymhelliad gan y Cyngor, bydd Aelodau'n cael eu hanghymwyso'n awtomatig o'u swyddi fel aelodau etholedig os ydynt yn methu â mynychu cyfarfod o'r awdurdod am 6 mis (hyd yn oed os yw'r chwe mis yn cael ei ystumio oherwydd y "saib" " a ddarperir gan y Rheoliadau). Pan gyflwynir yr adroddiad i'r Cyngor, mae'n golygu felly y bydd yr Aelodau yn ystyried a phleidleisio ar fater y mae ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu ynddo. Byddai hyn yn torri'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau **(Atodiad 1)** oni bai eu bod wedi derbyn caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau.

Rhaid i unrhyw Aelod sy'n dymuno cael caniatâd arbennig wneud cais ysgrifenedig sy'n nodi'r rhwystr ac yn nodi ar ba sail y mae'r cais yn cael ei wneud. Yna, bydd Panel o'r Pwyllgor Safonau yn cyfarfod i ystyried y cais. Cynhelir y gwrandawiad yn gyhoeddus. Unwaith eto, oherwydd Coronafeirws cynhelir y Gwrandawiad Caniâtad Arbennig o bell.

Yn dilyn ymholiadau efo aelodau etholedig y Cyngor, mae cais gan ddau ddeg naw Aelod wedi ei gynnwys yn **Atodiad 3**.

Mae'r cais yn manylu ar y busnes y mae'r aelodau yn dymuno cymryd rhan ynddo, y math o ganiatâd arbennig y gofynnir amdano a'r sail statudol dros ofyn am y caniatâd hwnnw.

## **5. YSTYRIAETHAU'R PANEL**

Cyfeirir y Panel ar y Nodyn Methodoleg yn (**Atodiad 4)** sy'n manylu ar y materion y bydd y Panel efallai yn dymuno eu hystyried wrth ddod i benderfyniad ar y cais.

## **6. ARGYMHELLION**

I ystyried y cais yn ôl ei haeddiant, a

(A) phenderfynu â ddylid rhoi caniatâd arbennig ai peidio; a

(B) os yn rhoi caniatâd arbennig, ystyried

- (i) ar ba sail y mae'r caniatâd arbennig yn cael ei roi; a
- (ii) a ddylid gosod unrhyw gyfyngiadau/rwystrau ar y caniatâd

## 5.1 Côd Ymddygiad i Aelodau

Dyma'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ar 12.05.2016

**Rhan 1 – Dehongli**

1. (1) Yn y cod hwn

mae "aelod" ("member") yn cynnwys aelod cyfetholedig onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall;

ystyr "aelod cyfetholedig" ("co-opted member"), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond -

(a) sy'n aelod o unrhyw bwyllgor neu is-Bwyllgor i'r awdurdod, neu

(b) sy'n aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu gyd is-Bwyllgor i'r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno

ac sydd â'r hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r is-Bwyllgor hwnnw;

ystyr "eich awdurdod" ("your authority") yw'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono;

ystyr "awdurdod perthnasol" ("relevant authority") yw -

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(ch) awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo,

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;

ystyr "cofrestr o fuddiannau'r aelodau" ("register of members' interests") yw'r gofrestr a sefydlir ac a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "cyfarfod" ("meeting") yw unrhyw gyfarfod -

(a) o'r awdurdod perthnasol,

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod perthnasol,

(c) o unrhyw bwyllgor, Is-Bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-Is-Bwyllgor i'r awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor o'r fath i unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod, neu

(ch) y mae aelodau neu swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol ynddo ac eithrio cyfarfod grŵp gwleidyddol a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 ,

ac mae'n cynnwys amgylchiadau lle mae aelod o weithredaeth neu fwrdd neu swyddog yn gweithredu ar ei ben ei hun yn cyflawni swyddogaeth awdurdod

ystyr "chi" ("you") yw chi fel aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol.

(2) Mewn perthynas â chyngor cymuned—

(a) ystyr "swyddog priodol" ("proper officer") yw swyddog o'r cyngor hwnnw o fewn ystyr adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; a

(b) ystyr "pwyllgor safonau" ("standards committee") yw pwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**Rhan 2 - Darpariaethau Cyffredinol**

2. (1) Ac eithrio pan fo paragraff 3(a) yn gymwys, rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn -

(a) pa bryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod, neu'n bresennol mewn un o gyfarfodydd eich awdurdod;

(b) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rôl aelod y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(c) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel un o gynrychiolwyr eich awdurdod; neu

(ch) ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, mewn cysylltiad ag ymddygiad a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

3. Os byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu -

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo gôd sy'n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r côd ymddygiad hwn, ac eithrio pan yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt neu i'r graddau y mae'n gwrthdaro â'r cyfryw rwymedigaethau.

4. Rhaid i chi -

(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;

(b) ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;

(c) beidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson;

(ch) beidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, diduedddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran; a

(d) mynychu o leiaf un sesiwn hyfforddiant ar y côd ymddygiad hwn yn ystod pob tymor llawn yn y swydd ac, yn achos yr aelodau hynny sydd wedi cael eu hethol i'r Cyngor Sir am y tro cyntaf a'r rheiny sydd wedi cael eu hailethol ond nad ydynt wedi treulio cyfnod di-dor yn y swydd, rhaid iddynt fynychu'r hyfforddiant yn ystod y chwe mis yn dilyn eu hethol.

5. Rhaid i chi -

(a) beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

(b) beidio â rhwystro unrhyw berson rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.

6. (1) Rhaid i chi -

(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;

(b) adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig);

(c) roi gwybod i swyddog monitro eich awdurdod am unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn groes i'r côd ymddygiad hwn;

(ch) beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran.

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

7. Rhaid i chi -

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;

(b) beidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio -

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddo neu iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

8. Rhaid i chi -

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eich awdurdod, ac yn benodol gan -

(i) pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(ii) Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 yr awdurdod;

(iii) swyddog monitro'r awdurdod;

(iv) prif swyddog cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch pŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch a yw'r cam a arfaethir yn dod o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethu â gweithredu gan yr awdurdod gael ôl-effeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol ychwanegol a osodir gan eich awdurdod.

9. Rhaid i chi -

(a) barchu'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod;

(b) osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

**Rhan 3 - Buddiannau**

Buddiannau Personol

10. (1) Ym mhob mater rhaid i chi ystyried a oes gennych fuddiant personol, ac a yw'r côd ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu'r buddiant hwnnw.

(2) Rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef -

(a) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt -

(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl;

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a gawsoch wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu waith a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(ix) unrhyw -

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod

ac yn berthnasol i (aa) i (dd), yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;

[Sylwer: mae isbaragraff (b) wedi cael ei adael allan] -

(c) pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio -

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

ac yn berthnasol i (i) i (v), a hynny i raddau mwy -

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

Datgelu Buddiannau Personol

11. (1) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y

buddiant hwnnw cyn i’r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau’r ystyriaeth, neu pan ddaw’r buddiant i’r amlwg.

(2) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud -

(a) cynrychioliadau ysgrifenedig (p’un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig; neu

(b) cynrychioliadau llafar (p’un ai’n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod dylech ddatgelu’r buddiant ar ddechrau’r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw’n amlwg i chi fod gennych fuddiant o’r fath, a chadarnhau’r cynrychioliad a’r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 14(1)(b) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, rhaid i chi mewn perthynas â’r busnes hwnnw sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw’n cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(4) Rhaid i chi, mewn cysylltiad â buddiant personol nas datgelwyd eisoes, cyn cyfarfod neu’n syth ar ôl diwedd cyfarfod pan ddatgelir y buddiant yn unol ag is-baragraff 11(1), roi hysbysiad ysgrifenedig i’ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan swyddog monitro eich awdurdod o bryd i’w gilydd ond, rhaid cynnwys o
leiaf -

(a) manylion am y buddiant personol;

(b) manylion am y busnes y mae’r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef; ac

(c) eich llofnod

(5) Pan fydd eich swyddog monitro wedi cytuno bod yr wybodaeth sy’n ymwneud â’ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 11 hwn i ddatgelu’r cyfryw wybodaeth, p’un ai ar lafar neu’n ysgrifenedig, i’w disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol ac i gadarnhau bod eich swyddog monitro wedi cytuno bod y cyfryw fuddiant personol o natur gwybodaeth sensitif.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), dim ond os bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu yn unol â’r côd hwn ers y dyddiad diwethaf pryd yr etholwyd chi, y penodwyd chi neu yr enwebwyd chi’n aelod o’ch awdurdod y bernir bod buddiant personol wedi ei ddatgelu eisoes.

(7) At ddibenion is-baragraff (3), os na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â’r paragraff hwnnw bernir na fyddwch wedi datgan buddiant personol yn unol â’r côd hwn.

Buddiannau sy’n Rhagfarnu

12. (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus.

(2) Yn amodol ar (3), nid ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os bydd y busnes hwnnw -

(a) yn gysylltiedig -

(i) ag awdurdod perthnasol arall yr ydych hefyd yn aelod ohono;

(ii) ag awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle yr ydych mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol;

(iii) â chorff yr ydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(iv) â'ch rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai bod y busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol yr ydych yn un o'i llywodraethwyr;

(v) â'ch rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(b) yn gysylltiedig:

(i) â swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych denantiaeth neu les gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch i'ch awdurdod ôl-ddyledion rhent o fwy na deufis, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn arbennig â'ch tenantiaeth neu â'ch les;

(ii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â phrydau ysgol, cludiant a threuliau teithio, os ydych chi'n warchodwr, yn rhiant, yn fam-gu neu'n nain neu'n dad-cu neu'n daid, neu os oes gennych gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn adran 3 o Deddf Plant 1989) dros blentyn sy'n cael addysg amser llawn, onid yw'r busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw'n ei mynychu;

(iii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â thâl salwch statudol o dan Ran XI o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych yn cael, neu os oes gennych hawl i gael, taliad o'r fath gan eich awdurdod;

(iv) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â lwfans neu daliad a wneir yn unol â darpariaethau Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, neu lwfans neu bensiwn a ddarperir o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

(c) yn gysylltiedig â'ch rôl fel cynghorydd cymunedol mewn perthynas â grant, benthyciad neu fath arall ar gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i gyrff cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(3) Nid yw’r esemptiadau yn is-baragraff (2)(a) yn gymwys os yw’r busnes yn gysylltiedig â dyfarnu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad.

Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini

13. Bydd gennych hefyd fuddiant sy’n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o’r fath ) -

(a) os bydd y busnes hwnnw’n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p’un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o’r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu’r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a’ch bod chi’n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw.

Cyfrannu mewn Perthynas â Datgelu Buddiannau

14. (1) Yn amodol ar is-baragraffau (2), (2A) (3) a (4), os bydd gennych fuddiant sy’n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ganiatâd arbennig gan bwyllgor safonau eich awdurdod -

(a) ymadael â’r ystafell, y siambr neu’r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal -

(i) pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, yn syth ar ôl i’r cyfnod ar gyfer gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy’n ymwneud â’r busnes ddod i ben a beth bynnag cyn i ystyriaeth bellach o’r busnes ddechrau, p’un a ganiateir i’r cyhoedd aros yn bresennol ar gyfer y cyfryw ystyriaeth ai peidio; neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, pa bryd bynnag y daw i’r amlwg bod y busnes hwnnw’n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(b) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd mewn perthynas â’r busnes hwnnw;

(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw;

(ch) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig (p’un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) mewn perthynas â’r busnes hwnnw; a

(d) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p’un ai’n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â’r busnes hwnnw neu rhaid i chi roi’r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw’r buddiant sy’n rhagfarnu i’r amlwg.

(2) Os oes gennych fuddiant sy’n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef cewch fod yn bresennol mewn cyfarfod ond dim ond er mwyn gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy’n ymwneud â’r busnes, ar yr amod

y caniateir hefyd i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod i'r un diben, p'un ai o dan hawl statudol neu fel arall.

(2A) lle mae gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu ym musnes yr awdurdod, gallwch gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i gyfarfod mewn perthynas â'r busnes hwnnw ar yr amod y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod i bwrpas gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth am y busnes p'un a yw'n statudol ai peidio.

(2B) wrth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig dan baragraff (2A), rhaid i chi gydymffurfio gydag unrhyw weithdrefn y gall eich awdurdod ei mabwysiadu ar gyfer cyflwyno sylwadau o'r fath.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn eich rhwystro rhag bod yn bresennol a chyfrannu mewn cyfarfod -

(a) os gofynnir i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod o bwyllgor trosolwg neu sgriwtini, gan y cyfryw bwyllgor ac yntau'n arfer ei bwerau statudol; neu

(b) os oes gennych y fantais o fod â chaniatâd arbennig  ar yr amod -

(i) eich bod yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar y gollyngiad; a

(ii) eich bod, cyn y cyfarfod neu'n syth ar ôl i'r cyfarfod orffen, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod a bod hwnnw'n cynnwys -

(aa) manylion y diddordeb sy'n rhagfarnu;

(bb) manylion y busnes y mae'r diddordeb sy'n rhagfarnu'n gysylltiedig ag ef;

(cc) manylion y caniatâd arbennig a'r dyddiad pryd y'i rhoddwyd; a

(chch) eich llofnod.

(4) Os bydd gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud cynrychioliadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod gan ddibynnu ar ganiatâd arbennig, rhaid i chi ddarparu manylion am y caniatâd arbennigmewn unrhyw sylwadau a wnewch yn ysgrifenedig neu ar lafar ac, yn yr achos olaf hwn, rhaid i chi ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer eich awdurdod o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y sylwadau.

**Rhan 4 - Cofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau**

Cofrestru  Buddiannau Personol

15. (1) yn amodol ar is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl -

(a) i gôd ymddygiad eich awdurdod gael ei fabwysiadu neu i ddarpariaethau gorfodol y côd enghreifftiol hwn gael eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu

(b) i chi gael eich ethol neu eich penodi i swydd (os digwydd hynny'n ddiweddarach),

gofrestru eich buddiannau personol, os ydynt yn dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a) yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau, drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw newid i fuddiant personol a gofrestrwyd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r newid hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod.
(4) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) a (3) yn gymwys i wybodaeth sensitif a benderfynir yn unol â pharagraff 16(1).

(5) Ni fydd is-baragraff (1) a (2) yn gymwys os ydych yn aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn eich capasiti fel aelod o awdurdod o'r fath.

Gwybodaeth sensitif

16. (1) Os byddwch yn ystyried bod yr wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu rai o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif, a bod swyddog monitro eich awdurdod yn cytuno, nid oes angen i chi gynnwys yr wybodaeth honno pan fyddwch yn cofrestru'r diddordeb hwnnw, neu, yn ôl y digwydd, newid i'r diddordeb o dan baragraff 15.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o unrhyw newid yn eich amgylchiadau sy'n golygu nad yw gwybodaeth sydd wedi ei heithrio o dan is-baragraff (1) mwyach yn wybodaeth sensitif, hysbysu swyddog monitro eich awdurdod gan ofyn am i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr diddordebau aelodau eich awdurdod.

(3) Yn y cod hwn, ystyr "gwybodaeth sensitif" ("sensitive information") yw gwybodaeth y mae ei rhoi ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu berson sy'n byw gyda chi fod yn destun trais neu fygythion.

Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch

17. Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eich awdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno.  Dylai hysbysiad ysgrifenedig o'r fath gael eu darparu yma.

# Nodyn Briffio i Aelodau

# Caniatâd Arbennig

Mae hwn yn nodyn briffio i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â 'Chaniatâd Arbennig'. Os oes gan Aelodau unrhyw gwestiynau, dylid cysylltu â'r Swyddog Monitro.

**Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn**

Ni chaniateir i unrhyw Aelod gymryd rhan mewn mater os oes ganddo ef/hi ddiddordeb sy'n rhagfarnu* yn y mater hwnnw oni bai bod caniatâd arbennig wedi ei roi gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Cynhwysir yr wybodaeth hon ym mharagraff 14 y Cod

**Y Sail dros roi caniatâd arbennig**

Mae'r seiliau dros rhoi caniatâd arbennig wedi eu cynnwys yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 (**Atodiad 1**) fel y'i diwygiwyd gan Adran 4 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Dwiygio) 2016 (**Atodiad 2**).

Gellir rhoi caniatâd arbennig ar un neu fwy o'r seiliau canlynol :-

1. os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw; *(sail (a) Cymraeg a Saesneg yn y ddeddfwriaeth)*

2. os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys; *(sail (b) Cymraeg a Saesneg yn y ddeddfwriaeth);*
[dylid cynnwys yr Arweinydd yn y Pwyllgor Gwaith wrth gyfrifo'r gyfran]

3. yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai analluedd aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio; *(sail (c) Cymraeg a Saesneg yn y ddeddfwriaeth)*;

4. os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal; *(sail (ch) Cymraeg a sail (d) Saesneg yn y ddeddfwriaeth)*;

5. os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd; *(sail (d) Cymraeg a sail (e) Saesneg yn y ddeddfwriaeth)*;

6. os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; *(sail (dd) Cymraeg a sail (f) Saesneg yn y ddeddfwriaeth)*;

7. os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol; *(sail (e) Cymraeg a sail (g) Saesneg yn y ddeddfwriaeth)*;

8. os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; *(sail (f) Cymraeg a sail (h) Saesneg yn y ddeddfwriaeth)*;

9. os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r analluu gael ei godi; *(sail (ff) Cymraeg a sail (i) Saesneg yn y ddeddfwriaeth)*; *- neu*

10. os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod yn briodol fel arall caniatáu gollyngiad; *(sail (g) Cymraeg a sail (j) Saesneg yn y ddeddfwriaeth)*.
[Rhaid i'r Pwyllgor Safonau adolygu caniatâd ar y sail yma ym mhob cyfnod o 12 mis o'r dyddiad rhoddir y Caniatâd Arbennig].

**Sut mae gwneud cais am ganiatâd arbennig?**

Mae'n rhaid i'r Aelod sy'n Ymgeisio wneud cais ysgrifenedig i'r Pwyllgor Safonau ac yn arferol disgwylir iddo/iddi fod yn bresennol yng nghyfarfod Panel y Pwyllgor Safonau fydd yn gwneud y penderfyniad.

Gall Aelod sy'n Ymgeisio wneud cais fel unigolyn, neu, mewn amgylchiadau cyffredin, gellir cyflwyno cais ar y cyd neu dorfol ar gyfer mwy nag un Aelod.

Bydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried yr holl geisiadau ar sail y ffeithiau a gyflwynir ym mhob achos; gan gydbwyso'r budd i'r cyhoedd o atal y sawl sydd â diddordebau sy'n rhagfarnu* rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau gyda'r angen i sicrhau cymaint o gyfranogiad ag sy'n bosibl yn y broses ddemocrataidd.

Gwneir penderfyniad i roi caniatâd arbennig yn ôl doethineb y Pwyllgor Safonau. Y Pwyllgor Safonau fydd yn penderfynu ar amodau a hyd unrhyw ganiatâd arbennig.

Os yw'r Pwyllgor Safonau yn cymeradwyo'r cais mae'n rhaid iddo roi'r caniatâd arbennig yn ysgrifenedig. Ni fydd modd i unrhyw Aelod ddibynnu ar ganiatâd arbennig hyd nes y bydd y penderfyniad ysgrifenedig wedi'i gyhoeddi. Os oes angen, ac os yw'n bosib, fe wneir hyn yn ddiymdroi.

**Gofynion ar Aelodau pan fyddant yn dibynnu ar ganiatâd arbennig**

Unwaith fydd y Pwyllgor Safonau wedi cymeradwyo cais ac wedi rhoi caniatâd arbennig, a hynny'n ysgrifenedig, bydd gan yr Aelod hawl wedyn i gymryd rhan (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a osodwyd) er gwaethaf ei ddiddordeb/ei diddordeb sy'n rhagfarnu*.

(a) <u>Cyfarfodydd:</u>

Os yw Aelod wedi derbyn caniatâd arbennig a'i fod yn dymuno cymryd rhan mewn cyfarfod i drafod y mater perthnasol hwnnw, mae'n rhaid i'r Aelod:

(i) ddatgan yn y cyfarfod, pan fydd yr eitem yn cael ei thrafod, ei fod o/hi yn dibynnu ar ganiatâd arbennig; a

(ii) cyn, neu yn syth ar ôl i'r cyfarfod orffen, mae'n rhaid iddo ef/iddi hi roi hysbysiad ysgrifenedig** i'r Cyngor.

Mae'n rhaid i'r hysbysiad gynnwys:

1. manylion y diddordeb sy'n rhagfarnu* y derbyniwyd y caniatâd arbennig ar ei gyfer;
2. manylion y busnes y mae'r diddordeb sy'n rhagfarnu* yn ymwneud ag ef;
3. manylion y caniatâd arbennig, yn cynnwys y dyddiad y cafodd ei roi, a
4. llofnod yr Aelod.

(b) Sylwadau Ysgrifenedig:

Os yw Aelod wedi derbyn caniatâd arbennig, ac mae'n gwneud sylwadau ysgrifenedig i'r Cyngor, mae'n rhaid i'r Aelod gynnwys gwybodaeth am y caniatâd arbennig mewn unrhyw ohebiaeth ar y pwnc y mae'r caniatâd arbennig yn ymwneud ag ef.

(c) Sylwadau Llafar:

Os yw Aelod wedi derbyn caniatâd arbennig, ac mae'n gwneud sylwadau llafar i'r Cyngor bydd rhaid i'r aelod hwnnw/honno:

(i) gynnwys manylion y caniatâd arbennig mewn unrhyw sylwadau llafar, a

(ii) rhoi hysbysiad ysgrifenedig** i'r Cyngor o fewn 14 diwrnod ar ôl gwneud y sylwadau llafar.

Troednodyn/Diffiniadau

* Diddordeb sy'n Rhagfarnu – Diddordebau personol yw'r rhain y byddai arsyllwr gwrthrychol yn ystyried eu bod mor sylweddol fel eu bod yn debygol o effeithio'n andwyol ar allu Aelod i weithredu er budd y cyhoedd.

** hysbysiad ysgrifenedig - mewn cyfarfodydd ffurfiol, gall Aelodau ddefnyddio'r ffurflen safonol ar gyfer gwneud datganiad. Mewn cyfarfodydd anffurfiol mae'n rhaid i Aelodau ddarparu cadarnhad ysgrifenedig i'r swyddog arweiniol a gofyn i'r caniatâd arbennig gael ei gynnwys mewn unrhyw gofnod anffurfiol/nodyn ffeil ar gyfer y cyfarfod.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

## CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN Y PWYLLGOR SAFONAU GAN AELOD O'R CYNGOR SIR

| | |
|---|---|
| **Enw'r Aelod:** | |
| **Manylion Cyswllt yr Aelod:** | |
| **Ward:** | |
| **Manylion y diddordeb sy'n rhagfarnu* y gofynnir am Ganiatâd Arbennig yn ei chylch:** | |
| **Y busnes mae'r Aelod yn dymuno cymryd rhan ynddo:** | |
| **Y math o Ganiatâd Arbennig y gofynnir amdano (rhowch ✓ fel sy'n briodol a chynhwyswch unrhyw wybodaeth sydd ei hangen)** | o ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor] ynglŷn â'r mater;<br>o siarad gyda swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater [ym mhresenoldeb dau berson arall] [nad ydynt yn ymddiriedolwyr neu'n Aelodau o Fwrdd [NODWCH YMA], cyhyd ag y cedwir cofnod o unrhyw drafodaethau;<br>o siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith /Pwyllgor/Cyngor ac ateb a gofyn unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mater;<br>o aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/bleidlais ynglŷn â'r mater (ar gael pan fo Aelod efo anabledd);<br>o pleidleisio yn y cyfarfodydd hynny;<br>o cymryd rhan lawn mewn unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd o unrhyw gyrff allanol ac ati;<br>o arall – rhowch fanylion os gwelwch yn dda:<br>________________________________________<br>________________________________________ |
| **Sail statudol ar gyfer gofyn am Ganiatâd Arbennig (gweler trosodd am restr o'r rhesymau):** | |
| **A yw'r diddordeb wedi'i gofrestru yn unol ag Adran 81(1) a (2) Deddf Llywodraeth Leol 2000:** | **Ydy / Nac Ydy** |
| **Dyddiad erbyn pryd y bydd angen y penderfyniad:** | |
| **Llofnod:** | **Dyddiad:** |

* Diddordebau sy'n Rhagfarnu – diddordebau personol yw'r rhain y byddai arsyllwr gwrthrychol yn ystyried eu bod mor sylweddol fel eu bod yn debygol o effeithio'n andwyol ar allu Aelod i weithredu er budd y cyhoedd.

**Amgylchiadau lle gall Pwyllgor Safonau Roddi Caniatâd Arbennig**

Mae Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 yn nodi y caniateir i Bwyllgor Safonau'r Cyngor roi caniatâd arbennig o dan Adran 81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 o dan yr amgylchiadau canlynol:

(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw; *(sail Saesneg (a))*

(b)os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys; *(sail Saesneg (b))*

(c)yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio; *(sail Saesneg (c))*

(ch)os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal; *(sail Saesneg (d))*

(d)os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd; *(sail Saesneg (e))*

(dd)os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; *(sail Saesneg (f))*

(e)os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol; *(sail Saesneg (g))*

(f)os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; *(sail Saesneg (h))*

(ff)os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi; *(sail Saesneg (i)) - neu*

(g) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod yn briodol fel arall caniatáu gollyngiad. *(sail Saesneg (j)).*

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU MEWN PERTHYNAS Â CHAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN AELOD O'R CYNGOR SIR**

| | |
|---|---|
| **Penderfyniad y Pwyllgor Safonau:** | |
| **Dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau:** | |
| **Enw'r personau y dylid ei hysbysu am benderfyniad y Pwyllgor Safonau:** | |
| **Dyddiad y daw'r caniatâd arbennig i ben:** | |

Yn unol â pharagraff [ ] Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu rhoi **caniatâd arbennig** i'r Cynghorydd [ ] mewn perthynas â'r diddordeb hwnnw y cyfeirir ato / y diddordebau hynny y cyfeirir atynt yn nhudalen 1 y Cais, sy'n caniatáu i'r Cynghorydd:

- ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor] ynglŷn â'r mater;
- siarad â swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater [ym mhresenoldeb dau berson arall] [nad ydynt yn Ymddiriedolwyr neu'n Aelodau o Fwrdd [NODWCH YMA], cyhyd ag y cedwir cofnod o unrhyw drafodaethau;
- siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn mater;
- aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/bleidlais ynglŷn â mater (oherwydd anabledd yr Aelod);
- pleidleisio yn y cyfarfodydd hynny;
- os yw'n berthnasol, bydd hyn yn cynnwys cymryd rhan lawn mewn unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd o unrhyw gyrff allanol ac ati;
- arall - ____________________________________________________________________
  ____________________________________________________________________

Mae gan y Cynghorydd felly hawl i siarad [a phleidleisio] yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor mewn perthynas â'r mater ac ateb unrhyw gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor [ond mae'n rhaid iddo/iddi adael y cyfarfod cyn y trafodir a phleidleisir ar y materion hynny y mae'r Cynghorydd yn siarad yn eu cylch] NEU
[a chaniateir iddynt aros yn yr ystafell yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar y mater ond ni chaniateir iddynt bleidleisio ar y mater].

Cyn i'r Cynghorydd siarad â, neu ysgrifennu at, swyddogion y Cyngor, neu siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ar y mater, mae'r rhaid i'r Cynghorydd :-

- ddatgan diddordeb yn y mater; a
- cadarnhau bod caniatâd arbennig wedi ei roi er mwyn caniatáu i'r Cynghorydd siarad [a phleidleisio] ar y mater; a
- cwblhau hysbysiad i'r Clerc yn manylu ar y diddordeb a'r caniatâd arbennig.

Drwy awdurdod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiedig:______________________________

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2001 Rhif 2279 (Cy. 169 )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") mae'n ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ("awdurdodau perthnasol") fabwysiadu cod ymddygiad ar gyfer aelodau ac aelodau cyfetholedig sy'n gorfod ymgorffori unrhyw ddarpariaethau gorfodol o unrhyw god ymddygiad enghreifftiol a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 50(2) o'r Ddeddf.

Mae adran 81(1) a (2) o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i'r swyddog monitro ym mhob awdurdod perthnasol sefydlu a chadw cofrestr o fuddiannau aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod a bod darpariaethau gorfodol y cod enghreifftiol sy'n gymwysadwy i bob awdurdod perthnasol yn gorfod ei gwneud yn ofynnol i aelodau ac aelodau cyfetholediog pob awdurdod gofrestru unrhyw fuddiannau ariannol ac eraill a bennir yn y darpariaethau gorfodol yng nghofrestr yr awdurdod hwnnw.

O dan adran 81(3) a (4) o'r Ddeddf rhaid i'r darpariaethau gorfodol hynny ei gwneud yn ofynnol hefyd i aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol sydd â buddiant o'r fath ei ddatgelu cyn cymryd rhan mewn unrhyw fusnes gan yr awdurdod sy'n berthnasol i'r buddiant a gwneud darpariaeth i atal yr aelod neu'r aelod cyfetholedig hwnnw rhag cymryd rhan mewn unrhyw fusnes gan yr awdurdod y mae'r buddiant a ddatgelwyd yn berthnasol iddo neu i gyfyngu ar y rhan y mae'n ei chymryd ynddo.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2001 No. 2279 (W. 169 )

# LOCAL GOVERNMENT , WALES

# The Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

County and county borough councils, community councils, fire authorities and National Park authorities in Wales ("relevant authorities") are required by section 51 of the Local Government Act 2000 ("the Act") to adopt a code of conduct for members and co-opted members which must incorporate any mandatory provisions of any model code of conduct issued by the National Assembly for Wales under section 50(2) of the Act.

Section 81(1) and (2) of the Act provides that the monitoring officer of each relevant authority must establish and maintain a register of interests of the members and co-opted members of the authority and that the mandatory provisions of the model code applicable to each relevant authority must require the members and co-opted members of each authority to register in that authority's register such financial and other interests as are specified in the mandatory provisions.

Under section 81(3) and (4) of the Act those mandatory provisions must also require a member or co-opted member of a relevant authority who has such an interest to disclose it before taking part in any business of the authority which relates to it and make provision for preventing or restricting the participation of that member or co-opted member in any business of the authority to which the disclosed interest relates.

Mae adran 81(4) o'r Ddeddf yn darparu nad yw unrhyw gyfranogiad gan aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol mewn unrhyw fusnes a waherddir gan y darpariaethau gorfodol yn fethiant i gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod os yw'r aelod neu'r aelod cyfetholedig wedi gweithredu yn unol â gollyngiad rhag y gwaharddiad a gafodd ei ganiatáu gan bwyllgor safonau'r awdurdod yn unol â rheoliadau a wneir o dan is-adran (5).

Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi'r amgylchiadau y caiff pwyllgorau safonau'r awdurdodau perthasol ganiatáu gollyngiadau o'r fath odanynt.

Section 81(4) of the Act provides that any participation by a member or co-opted member of a relevant authority in any business which is prohibited by the mandatory provisions is not a failure to comply with the authority's code of conduct if the member or co-opted member has acted in accordance with a dispensation from the prohibition granted by the authority's standards committee in accordance with regulations made under subsection (5).

These regulations prescribe the circumstances in which standards committees of relevant authorities may grant such dispensations.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2279 (Cy. 169 )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *21 Mehefin 2001* |
| *Yn dod i rym* | *28 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 81(5) ac (8) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**a**).

**Enw, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**- (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Yn y Rheoliadau hyn -

mae "aelod" (*"member"*) yn cynnwys aelod cyfetholedig;

ystyr "awdurdod perthnasol" (*"relevant authority"*) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, cyngor cymuned, awdurdod tân neu awdurdod Parc Cenedlaethol;

ystyr "buddiant" (*"interest"*) yw buddiant y mae'n ofynnol ei gofrestru yng nghofrestr buddiannau'r awdurdod perthnasol;

ystyr "corff gwirfoddol" (*"voluntary organisation"*) yw corff (heblaw awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus arall) sy'n cynnal ei weithgareddau heblaw ar gyfer gwneud elw;

acystyr "y Ddeddf" (*"the Act"*) yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.

(a) 2000 p. 22.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2279 (W. 169 )

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001

| | |
|---|---|
| *Made* | *21st June 2001* |
| *Coming into force* | *28th July 2001* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the power given to it by section 81(5) and (8) of the Local Government Act 2000(**a**).

**Name, commencement, application and interpretation**

**1.**- (1) The name of these Regulations is the Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001 and they shall come into force on 28th July 2001.

(2) These Regulations apply to Wales only.

(3) In these Regulations -

"interest" (*"buddiant"*) means an interest which is required to be registered in the relevant authority's register of interests;

"member" (*"aelod"*) includes a co-opted member;

"relevant authority" (*"awdurdod perthnasol"*) means a county or county borough council, a community council, a fire authority or a National Park authority;

"the Act" (*"y Ddeddf"*) means the Local Government Act 2000; and

"voluntary organisation" (*"corff gwirfoddol"*) means a body (other than a local authority or other public body) whose activities are carried on otherwise than for profit.

(a) 2000 c. 22.

**Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau**

2. Caiff pwyllgor safonau awdurdod perthnasol ganiatáu gollyngiadau o dan adran 81(4) o'r Ddeddf -

(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai analluogrwydd aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r analluogrwydd gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu.

**Circumstances in which dispensations may be granted**

2. The standards committee of a relevant authority may grant dispensations under section 81(4) of the Act where -

(a) no fewer than half of the members of the relevant authority or of a committee of the authority (as the case may be) by which the business is to be considered has an interest which relates to that business;

(b) no fewer than half of the members of a leader and cabinet executive of the relevant authority by which the business is to be considered has an interest which relates to that business and either paragraph (d) or (e) also applies;

(c) in the case of a county or county borough council, the inability of the member to participate would upset the political balance of the relevant authority or of the committee of the authority by which the business is to be considered to such an extent that the outcome would be likely to be affected;

(d) the nature of the member's interest is such that the member's participation in the business to which the interest relates would not damage public confidence in the conduct of the relevant authority's business;

(e) the interest is common to the member and a significant proportion of the general public;

(f) the participation of the member in the business to which the interest relates is justified by the member's particular role or expertise;

(g) the business to which the interest relates is to be considered by an overview and scrutiny committee of the relevant authority and the member's interest is not a pecuniary interest;

(h) the business which is to be considered relates to the finances or property of a voluntary organisation of whose management committee or board the member is a member otherwise than as a representative of the relevant authority and the member has no other interest in that business provided that any dispensation shall not extend to participation in any vote with respect to that business; or

(i) it appears to the committee to be in the interests of the inhabitants of the area of the relevant authority that the disability should be removed provided that written notification of the grant of the dispensation is given to the National Assembly for Wales within seven days in such manner as it may specify.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

21 Mehefin 2001

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

21st June 2001

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p. 38.

(a) 1998 c. 38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2001 Rhif 2279 (Cy. 169 )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2001 No. 2279 (W. 169 )

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001

©Ⓓ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090284-X

9 780110 902845

**£2.00**

W/321/07/01 ON

*Status:* *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 85

# Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016

**Diwygio Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1, ym mharagraff (3) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "cyd-bwyllgor" ("*joint committee*") yw pwyllgor a sefydlir gan ddau awdurdod perthnasol neu ragor o dan adran 53(1) o'r Ddeddf;";

"ystyr "is-bwyllgor adran 54A" ("*section 54A sub-committee*") yw is-bwyllgor a benodir gan bwyllgor safonau o dan adran 54A(1) o'r Ddeddf";

"ystyr "is-bwyllgor cymunedol" ("*community sub-committee*") yw is-bwyllgor a benodir gan bwyllgor safonau awdurdod lleol o dan adran 56 o'r Ddeddf;";

"ystyr "pwyllgor safonau" ("*standards committee*") yw—

(a) pwyllgor safonau awdurdod perthnasol;

(b) cyd-bwyllgor;

(c) is-bwyllgor adran 54A; neu

(d) is-bwyllgor cymunedol;".

(3) Yn rheoliad 2—

(a) ar ddiwedd paragraff (f) hepgorer "neu";

(b) ym mharagraff (ff), yn lle'r geiriau sy'n dilyn "ei godi" rhodder "; neu";

(c) ar ôl paragraff (ff) mewnosoder—

"(g) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod yn briodol fel arall caniatáu gollyngiad."

(4) Ar ôl rheoliad 2 mewnosoder—

**"Gollyngiadau a ganiateir yn unol â rheoliad 2(g)**

**3.**—(1) Rhaid i ollyngiad a ganiateir gan bwyllgor safonau awdurdod perthnasol o dan adran 81(4) o'r Ddeddf ar y seiliau a nodir yn rheoliad 2(g) ac sy'n parhau i gael effaith, gael ei adolygu gan y pwyllgor safonau unwaith ym mhob cyfnod o 12 mis o'r dyddiad y caniateir y gollyngiad am y tro cyntaf.

(2) Pan fydd yn cynnal adolygiad o dan baragraff (1) rhaid i'r pwyllgor safonau ddyfarnu a ddylai'r gollyngiad barhau i gael effaith.

(1) O.S. 2001/2279 (Cy. 169).

**Gweithdrefn a phwerau pwyllgorau safonau**

**4.**—(1) Caiff pwyllgor safonau awdurdod perthnasol atgyfeirio cais am ollyngiad a wneir gan aelod o'r awdurdod i bwyllgor safonau awdurdod perthnasol arall i'r pwyllgor hwnnw ei ystyried a dyfarnu arno.

(2) Caiff swyddog monitro awdurdod perthnasol y gwneir cais am ollyngiad iddo wneud trefniadau, gyda chydsyniad ysgrifenedig cadeirydd pwyllgor safonau yr awdurdod hwnnw ymlaen llaw, i bwyllgor safonau awdurdod perthnasol arall ei ystyried a dyfarnu arno.

(3) Pan fo ymdrechion rhesymol i gysylltu â chadeirydd pwyllgor safonau yr awdurdod perthnasol wedi bod yn aflwyddiannus, caiff is-gadeirydd y pwyllgor safonau roi cydsyniad o dan baragraff (2).

(4) Pan fo swyddog monitro neu bwyllgor safonau yn gwneud trefniadau i bwyllgor safonau awdurdod perthnasol arall ystyried cais am ollyngiad a dyfarnu arno, rhaid i'r swyddog monitro neu'r pwyllgor safonau sy'n gwneud y trefniadau hynny roi hysbysiad am hynny i'r person sy'n gwneud y cais.

(5) Rhaid i'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (4) gynnwys y canlynol—

(a) datganiad bod y mater wedi ei atgyfeirio i bwyllgor safonau awdurdod perthnasol arall i'r pwyllgor hwnnw ei ystyried a dyfarnu arno;

(b) enw'r awdurdod perthnasol arall; ac

(c) y rheswm pam y mae'r cais wedi ei atgyfeirio i bwyllgor safonau yr awdurdod perthnasol arall.

(6) Pan fo'r pwyllgor safonau wedi dyfarnu ar y cais rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig am ei benderfyniad i'r canlynol—

(a) yr aelod sy'n gwneud cais am y gollyngiad; a

(b) pwyllgor safonau yr awdurdod perthnasol a atgyfeiriodd y cais."

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG A GYFLWYNIR I'R PWYLLGOR SAFONAU GAN AELODAU O'R CYNGOR SIR**

| | |
|---|---|
| **Enw'r Aelod:** | Y Cynghorydd Lewis Davies,<br>Y Cynghorydd Richard A Dew,<br>Y Cynghorydd John Griffith,<br>Y Cynghorydd Richard Griffiths,<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes,<br>Y Cynghorydd Kenneth P Hughes,<br>Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes MBE,<br>Y Cynghorydd Vaughan Hughes,<br>Y Cynghorydd Llinos Medi Huws,<br>Y Cynghorydd Aled Morris Jones,<br>Y Cynghorydd Carwyn Jones,<br>Y Cynghorydd Eric Wyn Jones,<br>Y Cynghorydd Richard Owain Jones,<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones,<br>Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones,<br>Y Cynghorydd R Meirion Jones,<br>Y Cynghorydd Alun Mummery,<br>Y Cynghorydd Bryan Owen,<br>Y Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS,<br>Y Cynghorydd Dylan Rees,<br>Y Cynghorydd Alun Roberts,<br>Y Cynghorydd Dafydd Roberts,<br>Y Cynghorydd J Arwel Roberts,<br>Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts,<br>Y Cynghorydd Nicola Roberts,<br>Y Cynghorydd Peter S Rogers,<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas,<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams, a'r<br>Cynghorydd Robin Wyn Williams. |
| **Manylion cyswllt yr Aelod:** | **Yn dilyn y drefn uchod:**<br><br>• lewisdavies@ynysmon.gov.uk<br>01248 490248<br>• richarddew@ynysmon.gov.uk<br>01407 810825<br>• johngriffith@ynysmon.gov.uk<br>01248 714883<br>• richardgriffiths@ynysmon.gov.uk<br>01407 839159<br>• glynhaynes@ynysmon.gov.uk<br>07951912338<br>• kennethHughes@ynysmon.gov.uk<br>01407 730269<br>• treforhughes@ynysmon.gov.uk<br>01407 764801<br>• vaughanhughes@ynysmon.gov.uk<br>01248 752873<br>• llinosmedihuws@ynysmon.gov.uk<br>01248 470702<br>• aledjones@ynysmon.gov.uk<br>01407 832640,<br>• carwyneliasjones@ynysmon.gov.uk<br>01248 450163<br>• ericjones@ynysmon.gov.uk<br>01248 430321<br>• richardowainjones@ynysmon.gov.uk<br>01407 832314<br>• gwilymojones@ynysmon.gov.uk<br>01407 740105 |

| | |
|---|---|
| | • robertjones@ynysmon.gov.uk 01407 763718<br>• meirionJones@ynysmon.gov.uk 01248 714270<br>• alunmummery@ynysmon.gov.uk 01248 714938<br>• bryanowen@ynysmon.gov.uk 01407 842114<br>• bobparry@ynysmon.gov.uk 01248 723078<br>• dylanrees@ynysmon.gov.uk 01248 724560<br>• alunroberts@ynysmon.gov.uk 01248 715837<br>• dafyddroberts@ynysmon.gov.uk 01248 848068<br>• johnarwelroberts@ynysmon.gov.uk 01407 742498<br>• margaretroberts@ynysmon.gov.uk 07717357919<br>• nicolaroberts@ynysmon.gov.uk 01248 723540<br>• peterrogers@ynysmon.gov.uk 01248 430241<br>• dafyddrhysthomas@ynysmon.gov.uk 01407 860576<br>• ieuanwilliams@ynysmon.gov.uk 01248 851070<br>• robinwilliams@ynysmon.gov.uk 078870842404 |
| **Ward:** | **Yn dilyn y drefn uchod:**<br>• **Seiriol**<br>• **Llifon**<br>• **Talybolion**<br>• **Twrcelyn**<br>• **Caergybi**<br>• **Talybolion**<br>• **Ynys Gybi**<br>• **Lligwy**<br>• **Talybolion**<br>• **Twrcelyn**<br>• **Seiriol**<br>• **Bro Rhosyr**<br>• **Twrcelyn**<br>• **Llifon**<br>• **Caergybi**<br>• **Aethwy**<br>• **Aethwy**<br>• **Bro Aberffraw**<br>• **Canolbarth Môn**<br>• **Canolbarth Môn**<br>• **Seiriol**<br>• **Bro Rhosyr**<br>• **Ynys Gybi**<br>• **Lligwy**<br>• **Canolbarth Môn**<br>• **Bro Aberffraw**<br>• **Ynys Cybi**<br>• **Lligwy**<br>• **Aethwy** |

| | |
|---|---|
| **Natur y diddordeb sy'n rhagfarnu ac y ceisir y Caniatâd Arbennig mewn perthynas ag ef:** | O ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws cyfredol, mae'n rhaid i'r Cyngor flaenoriaethu ei adnoddau ac ymdrechion ei weithlu; nid yw'n bosib cynnal "busnes fel arfer". Mae'r Cyngor wedi adolygu ei amserlen Bwyllgorau arferol ac wedi pennu'r nifer isaf o gyfarfodydd y byddai'n rhaid eu cynnal mewn dogfen "Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor am 12 mis". Os yw'r amgylchiadau'n caniatáu, gellir cynnal mwy o gyfarfodydd, ond bydd trefnu unrhyw gyfarfodydd ychwanegol yn dibynnu ar sut mae'r sefyllfa'n datblygu dros y 12 mis nesaf, yn enwedig o ran capasiti staff. Mae'n bosib felly mai anaml y cynhelir cyfarfodydd ac y bydd y cyfleon i aelodau fynychu cyfarfodydd yn gyfyngedig. Gallai hyn, ynghyd â'r ffaith y gallai'r feirws effeithio ar yr aelodau, arwain at anawsterau mewn perthynas â'r "rheol chwe mis.<br><br>Mae'r "rheol chwe mis" wedi ei chynnwys yn rhan 4.1.23.1 o Gyfansoddiad y Cyngor:<br>*Dan ofynion Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972 pan fo Cynghorydd, dros gyfnod o chwe mis o'r dyddiad pryd y mynychwyd ddiwethaf, yn methu mynychu unrhyw un o Gyfarfodydd yr Awdurdod (gweler y Nodiadau isod), yna mae'r Cynghorydd hwnnw yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod onid yw'r methiant i fynychu i'w briodoli i reswm a gymeradwywyd gan y Cyngor neu ar ei ran cyn diwedd y cyfnod hwnnw.*<br><br>Er bod Rheoliad 10 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn cynnwys cyfeiriad at y "rheol chwe mis", nid yw'n dileu'r terfyn amser - dim ond cynnwys darpariaeth ar gyfer saib. Mae'r Rheoliadau'n nodi, at ddibenion cyfrifo'r chwe mis, y bydd y cyfnod rhwng y diwrnod y daw'r Rheoliadau i rym (22 Ebrill 2020) a dyddiad cyfarfod y gallai'r aelod fod yn bresennol ynddo (gan gynnwys trwy bresenoldeb o bell) yn cael ei anwybyddu. Yr hyn y mae hynny'n ei olygu yn y bôn yw bod y cloc yn stopio dros dro am y cyfnod rhwng 22 Ebrill a dyddiad y cyfarfod perthnasol cyntaf y gwahoddir aelod i'w fynychu.<br><br>Cyflwynir adroddiad i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar 8 Medi 2020, yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo, at ddibenion Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fod yr achosion o Coronafeirws / y feirws Covid-19 yn rheswm i holl Gynghorwyr CSYM beidio â mynychu cyfarfodydd; a'n bod ni fel Cynghorwyr yn cael ein hamddiffyn fel na fydd y ffaith nad ydym wedi mynychu cyfarfodydd oherwydd Coronafeirws yn arwain at ein diswyddo'n otomatig am gyfnod pellach o chwe mis o'r dyddiad y daw ein clociau chwe mis unigol i ben. Bydd yr adroddiad hwnnw'n enwi'r holl Aelodau; bydd yr adroddiad yn gofyn am benderfyniad gan y Cyngor. Mae gan aelodau a enwir yn yr adroddiad ddiddordeb personol a diddordeb sy'n rhagfarnu yn y mater. Er mwyn gallu trafod y mater a phleidleisio arno yng nghyfarfod y Cyngor, rhaid i ni wneud cais am ganiatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau. |
| **Y busnes y mae'r Aelod yn dymuno cymryd rhan ynddo:** | Adroddiad i'r Cyngor llawn yn gofyn am ganiatâd y Cyngor mewn perthynas ag adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 / adran 4.1.23.1 o Gyfansoddiad y Cyngor ac estyniad i'r "rheol 6 mis". |
| **Y math o ganiatâd arbennig a geisir (ticiwch fel y bydd angen a nodwch unrhyw wybodaeth ofynnol):** | o ysgrifennu at swyddogion [a / neu'r Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor / Cyngor] am y mater;<br>o siarad â swyddogion y Cyngor am y mater [ym mhresenoldeb dau berson arall] [nad ydynt yn Ymddiriedolwyr nac yn Aelodau Bwrdd [NODER], ar yr amod y cymerir nodyn o unrhyw drafodaethau o'r fath;<br>o siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor / Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;<br>o aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth / pleidlais ar y |

| | |
|---|---|
| | mater (ar gael os oes gan yr Aelod anabledd);<br>o pleidleisio mewn cyfarfodydd o'r fath;<br>o cymryd rhan lawn mewn unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd unrhyw gyrff allanol ac ati.<br>o arall - nodwch os gwelwch yn dda<br>____________________________________<br>____________________________________ |
| **Sail / Seiliau Statudol dros ofyn am y Caniatâd Arbennig (Gweler drosodd am restr o'r seiliau sydd ar gael):** | (a) <u>os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu bwyllgor o'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) ddiddordeb sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw; (Sail (a) yn y Saesneg).</u><br>[Enwir pob Cynghorydd Sir yn y cais. Os na roddir y Caniatâd Arbennig ni ellir cael penderfyniad gan y Cyngor gan nad oes Aelodau i ffurfio cworwm.]<br><br>(c) <u>yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, byddai anallu'r aelod i gymryd rhan yn amharu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu bwyllgor o'r awdurdod a fydd yn ystyried y busnes i'r fath raddau y byddai'n debygol o effeithio ar y canlyniad: *(Sail (c) yn y Saesneg)*</u><br>[Angen yr holl Aelodau i gymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais].<br><br>(ch) <u>os yw natur diddordeb yr aelod o'r fath na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae'r awdurdod perthnasol yn cynnal ei fusnes; *(Sail (d) yn y Saesneg)*</u><br>[Mae'r diddordeb yn berthnasol i rôl y Cynghorwyr Sir mewn amgylchiadau eithriadol. Mae'r penderfyniad a geisir gan y Cyngor yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cyfnod pandemig cyfredol. Mae'r Caniatâd Arbennig yn ymwneud â thrafod y "rheol 6 mis" ar un achlysur yn unig.]<br><br><u>(g)</u> <u>os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod yn briodol, fel arall, i roddi Caniatâd Arbennig; *(Sail (j) yn y Saesneg)*</u><br>[Mae'r rhain yn amseroedd digynsail ac yn galw am weithredu digynsail. Mae estyniad i'r "rheol 6 mis" yn gais rhesymol ac mae'n gwneud synnwyr bod pob Aelod yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth a phleidlais ar y pwnc] |
| **A yw'r diddordeb wedi'i gofrestru yn unol ag Adrannau 81 (1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000:** | **~~Ydi~~ / Nac ydi**<br>**Mae'r diddordeb yn ymwneud â'r holl Aelodau yn eu rôl fel Cynghorwyr Sir, sydd wrth gwrs, yn wybodaeth gyhoeddus.** |
| **Y dyddiad erbyn pryd y mae angen penderfyniad:** | **Cyn cyfarfod y Cyngor Sir ar 8 Medi 2020** |

| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd:** | **Dyddiad:** |

* Diddordebau sy'n Rhagfarnu - diddordebau personol yw'r rhain y byddai arsylwr gwrthrychol yn ystyried eu bod mor sylweddol fel eu bod yn debygol o beryglu gallu aelod i weithredu er budd y cyhoedd.

**YSTYRIAETHAU CANIATÂD ARBENNIG**

**Canllawiau ar gyfer y Pwyllgor Safonau wrth ystyried ceisiadau gan Gynghorwyr am ganiatâd arbennig:**

1. Darllen:
   - Ystyriwch yr Adroddiad a baratowyd gan / ar ran y Swyddog Monitro.
   - Ystyriwch yr atodiadau i'r Adroddiad, yn arbennig y Ffurflen Gais a gwblhawyd gan y Cynghorydd, er mwyn casglu'r holl ffeithiau.

2. Ceisiadau Lluosog:
   - Ymdriniwch â phob cais yn unigol ac ar sail ei ffeithiau ei hun.
   - Ystyriwch y weithdrefn a ganlyn yn y Gwrandawiad:
     - Casglu gwybodaeth gefndir / cyffredinol (os oes angen);
     - Gwrando ar gais Cynghorydd A / gofyn cwestiynau os yw ef/hi yn bresennol / gofyn i'r Clerc;
     - Ymneilltuo i ystyried cais Cynghorydd A;
     - Ailgychwyn – gellir cyhoeddi'r penderfyniad mewn perthynas â chais Cynghorydd A, neu gellir dewis gohirio cyhoeddi'r penderfyniad hyd nes y bydd pob cais wedi'i ystyried;
     - Ailadrodd, yn dibynnu ar nifer y ceisiadau i'w hystyried.

3. Diddordeb Personol / Diddordeb Personol sy'n Rhagfarnu:
   - Ar gyfer pob cais, penderfynwch –
     - A oes <u>DIDDORDEB PERSONOL</u>?
       - Ystyriwch y Côd Ymddygiad (wedi ei gynnwys fel atodiad i'r Adroddiad)
       - – beth yw diddordeb personol?
     - A yw'r diddordeb personol yn ddiddordeb <u>SY'N RHAGFARNU</u>?
       - Unwaith eto, ystyriwch y Côd Ymddygiad (wedi ei gynnwys fel atodiad i'r Adroddiad) – a yw'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu hefyd?
   - Os nad oes diddordeb personol, neu os nad yw'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu, nid oes angen ystyried y cais am ganiatâd arbennig gan fod modd i'r Cynghorydd gymryd rhan lawn yn y busnes.

4. Sail ar gyfer Caniatâd Arbennig:
   - Os oes diddordeb personol sy'n rhagfarnu, ystyriwch ar ba SAIL y gellir rhoi caniatâd arbennig. Rhestrir y seiliau ar gefn y Ffurflen Gais.
     - A yw'r Ymgeisydd wedi eu nodi'n gywir ar y Ffurflen Gais?
     - A yw'r Ymgeisydd wedi cynnwys pob Caniatâd Arbennig sydd eu hangen ar y Ffurflen h.y. ar gyfer pleidleisio / siarad / ysgrifennu ayb?

5. Cyfyngiadau ar y Caniatâd Arbennig
   - Wrth benderfynu rhoi Caniatâd Arbennig neu beidio, ystyriwch (os bydd y Caniatâd Arbennig yn cael ei ganiatáu) a oes angen unrhyw gyfyngiadau. Materion megis caniatáu i'r Aelod siarad ond nid i bleidleisio, neu, a roddir y caniatâd arbennig am un cyfarfod yn unig yntau am weddill cyfnod y Cyngor.

6. Ffurflen Penderfyniad
   - Wrth roi'r caniatâd arbennig, bydd angen i'r Panel gwblhau'r Ffurflen Penderfyniad sy'n manylu ar (a) benderfyniad y Pwyllgor Safonau; (b) dyddiad gwneud y penderfyniad; (c) pwy sydd angen cael gwybod am y penderfyniad; (d) dyddiad y daw'r caniatâd arbennig i ben; (e) ar ba sail y rhoddir y caniatâd arbennig; a (f) beth mae'r caniatâd arbennig yn caniatáu i'r Cynghorydd ei wneud (h.y. siarad, pleidleisio ayb).

This page is intentionally left blank